Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Newid y safonau ar gyfer darparwyr gofal plant cofrestredig

## Beth ydych chi'n feddwl






**Medi 2025**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o:

"**Newidiadau arfaethedig i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig i Blant hyd at 12 oed**"




Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu chi.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.llyw.cymru/safonau-gofynnol-cenedlaethol-ar-gyfer-gofal-plant-wedii-reoleiddio-newidiau-arfaethedig-2025

**Ebost:** gofalplantachwarae@llyw.cymru

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Am yr ymgynghoriad yma** ........ 4

**Ein syniadau ar gyfer diweddaru'r safonau** ........ 6

Cynllun newydd ........ 6

Gofal o ansawdd uchel ........ 8

Diffiniad o chwarae mynediad agored ........ 11

Safonau chwarae mynediad agored ........ 13

Rhoi meddyginiaethau ........ 18

Niferoedd y staff cymwys a heb gymhwyso ........ 23

Cynorthwywyr gwarchodwyr plant ........ 26

Cael digon o staff ar gyfer gwarchod plant ........ 29

**Newidiadau eraill** ........ 32

# Am yr ymgynghoriad yma




Mae angen i ni ddiweddaru'r safonau ar gyfer darparwyr gofal plant cofrestredig yng Nghymru.



Darparwr gofal plant cofrestredig ydy:

- person neu sefydliad,
- wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru,
- i ofalu am blant hyd at 12 oed.




Mae'r safonau yn cael eu galw yn **Safonau Gofynnol Cenedlaethol.** Fe fyddwn ni'n eu galw'n safonau yn fyr.



Mae safon yn lefel o ansawdd.



Mae’r safonau’n helpu i wneud yn siŵr bod plant yn ddiogel ac yn cael gofal da.




Maen nhw hefyd yn helpu darparwyr i ddilyn y rheolau yn y gyfraith o’r enw Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (2010).



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi’n ei feddwl am ein syniadau i ddiweddaru’r safonau.




Darllenwch y llyfryn yma ac yna atebwch y cwestiynau yn y ffurflen ymateb.




Anfonwch eich atebion i ni erbyn **dydd Mercher, 10 Rhagfyr 2025**.

# Ein syniadau ar gyfer diweddaru'r safonau

## Cynllun newydd




Fe fyddwn ni'n rhoi'r safonau ar-lein.



Fe fydd hyn yn ei gwneud hi'n haws dod o hyd i'r gwahanol safonau, a symud rhwng dogfennau cysylltiedig.



Fe fydd rhieni yn gallu gweld y safonau ar gyfer y gwasanaeth maen nhw'n ei ddefnyddio.



Fe fyddwch chi'n gallu gweld y safonau ar ffôn, tabled, neu liniadur. A'u hargraffu os ydych chi eisiau.

**Rydyn ni eisiau gwybod os ydych chi'n meddwl y dylen ni hefyd ddarparu:**



- Dolen i'r rheolau y mae pob safon yn gysylltiedig â nhw. Mae hyn yn meddwl y rheolau yn y Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (2010).




- Dolen i ganllawiau sy'n helpu darparwyr i fynd uwchlaw'r safonau. Rydyn ni eisiau i bob plentyn gael gofal rhagorol.




Dyma enghraifft o sut y bydd y safonau'n cael eu gosod: Safon 12: Bwyd a Diod.



**Rydyn ni eisiau gwybod os ydych chi'n meddwl bod y cynllun yn yr enghraifft yn glir.**

# Gofal o ansawdd uchel



Mae pennod yn y safonau o'r enw "**Sut i ddefnyddio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**".



Mae'n dweud mai'r safonau ydy'r lefel isaf o ansawdd y mae'n rhaid i ddarparwyr ei gyrraedd.



A'n bod yn disgwyl i ddarparwyr fynd uwchlaw'r safonau. Mae mynd uwchlaw yn meddwl gwneud mwy na'r isafswm sydd yn cael eu nodi yn y safonau.





Mae gennym ni gynllun ar gyfer plant 0 i 5 oed. **Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar**. Rydyn ni'n ei alw'n **ECPLC** yn fyr.



Mae'n dweud sut mae darparwyr gofal plant yn gallu cefnogi plant yr oedran yma orau.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod darparwyr gofal plant yn rhoi'r gefnogaeth orau i blant o **bob oedran**.




Rydyn ni am ddilyn y nodau a'r gwerthoedd yn yr **ECPLC** ar gyfer plant o **bob oedran**.




Rydyn ni am edrych ar, a diweddaru'r safonau yn rheolaidd. I wneud yn siŵr eu bod yn gweithio'n dda i blant, ac i ddarparwyr.



Fel rhan o hyn, rydyn ni'n bwriadu:

- Ychwanegu mwy am fabanod a lles plant at bob safon,
- Cynnwys beth mae plant yn ei feddwl yn y safonau.




Rydyn ni hefyd eisiau diweddaru’r bennod o’r enw “**Beth rydyn ni’n ei feddwl wrth Ddarpariaeth o Ansawdd Uchel**”.




Rydyn ni eisiau:

- Cysylltu’r safonau â’r **ECPLC** yn well.



- Gwneud hi’n glir sut olwg sydd ar ansawdd da.



- Cydnabod bod gofal yn gallu bod yn wahanol ar gyfer gwahanol grwpiau oedran a lleoliadau.



**Rydyn ni eisiau gwybod os ydych chi’n meddwl y dylen ni ddiweddaru’r bennod yma.**

# Diffiniad o chwarae mynediad agored



Open access play is when trained staff provide safe Chwarae mynediad agored ydy pan fydd staff sydd wedi eu hyfforddi yn darparu cyfleoedd chwarae diogel i blant heb eu rhieni.



Rydyn ni wedi gweithio gyda phobl i ysgrifennu diffiniad newydd ar gyfer chwarae mynediad agored.

**Dyma ein hawgrym ar gyfer y diffiniad newydd:**



- Mae chwarae mynediad agored gyda staff sydd wedi eu hyfforddi  yn gweithio ar gyfer plant o bob oedran.



- I gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, rhaid i ddarparwyr ddarparu chwarae mynediad agored i blant 5 i 12 oed.



- Mae’n gallu bod yn barhaus neu’n fyrdymor.




- Mae’n gallu digwydd mewn gwahanol leoedd. Er enghraifft, adeilad, parc neu faes chwarae.
- Does dim cytundeb gofal plant ffurfiol gyda rhieni na gofalwyr.



- Does dim angen i blant gael eu hanfon na’u casglu gan oedolyn.



- Mae plant yn rhydd i chwarae gyda beth a phwy maen nhw eisiau. Maen nhw’n gyfyngedig dim ond os ydyn nhw’n gwneud rhywbeth sydd ddim yn ddiogel.



**Rydyn ni eisiau gwybod a ydych chi’n cytuno â’r diffiniad newydd yma.**

# Safonau chwarae mynediad agored




Mae chwarae mynediad agored yn cael ei ystyried fel math o ofal dydd. Rhaid i ddarparwyr ddilyn y safonau, ond dydy  pob un ohonyn nhw ddim yn berthnasol.



Mae angen i ni wneud safonau'n gliriach ar gyfer chwarae mynediad agored.

**Beth rydyn ni'n ei wneud:**



- Rydyn ni’n ysgrifennu diffiniad newydd ar gyfer chwarae mynediad agored.



- Fe fyddwn ni’n gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ac eraill i wneud cofrestru'n llai cymhleth.




- Rydyn ni'n gwneud safonau newydd ar gyfer chwarae mynediad agored. Fe fydd y safonau'n cynnwys:

  - Sut i gefnogi lles plant.
  - Gwrando ar farn plant.
  - Rheolau clir i'w dilyn.
  - Dolenni i gyfreithiau a rheolau pwysig.
  - Dolenni i ganllawiau a chyngor defnyddiol.



Rydyn ni'n edrych ar faint o staff guda hyfforddiant Cymorth Cyntaf sydd eu hangen.



Rydyn ni'n credu y dylai bob amser fod o leiaf 1 aelod o staff gyda hyfforddiant cymorth cyntaf.



Rydyn ni'n credu y dylai darparwyr wneud asesiadau i weld faint o staff sydd angen hyfforddiant cymorth cyntaf.



Fe fyddai'r asesiadau yn edrych ar:

- y gwasanaeth,
- lleoliad,
- gweithgareddau,
- ac anghenion plant.




**Rydyn ni eisiau gwybod a ydych chi'n cytuno â'r syniad yma.**




Rydyn ni hefyd yn edrych ar safonau am gymwysterau staff.



Mae rhai gwasanaethau chwarae yn rhedeg am ychydig wythnosau yn unig. Maen nhw'n defnyddio staff tymor byr heb gymwysterau llawn.



Mae hyn yn gwneud cofrestru yn anodd.

## Safon newydd

**Staff cymorth cyntaf:**



- Rhaid bod o leiaf 1 aelod o staff bob amser gyda hyfforddiant cymorth cyntaf.
- Mae modd ychwanegu mwy o staff gyda hyfforddiant cymorth cyntaf os ydy'r asesiad risg yn dweud ei fod yn angenrheidiol.
- Mae'r asesiad risg yn edrych ar y lle a'r gweithgareddau.



**Person â Gofal (Rheolwr):**

- Rhaid bod â 2 flynedd o brofiad o weithio mewn gofal dydd.
- Rhaid bod â chymhwyster Lefel 3 mewn gofal plant neu waith chwarae.



**Staff eraill:**

- Rhaid i hanner y staff fod â chymhwyster gwaith chwarae Lefel 2.
- Fe ddylai fod mwy o staff wedi eu hyfforddi na staff a gwirfoddolwyr heb eu hyfforddi.



**Staff heb unrhyw gymwysterau neu staff gwirf:**

- Rhaid bod yn alluog ac yn gyfrifol.
- Rhaid ei goruchwylio'n llawn.
- Rhaid i bob gwiriad gael ei gwblhau.
- Rhaid cwblhau hyfforddiant ar gyfer eu rôl.
- Rhaid gweithio ochr yn ochr â staff cymwysedig.



**Rydyn ni eisiau gwybod a ydych chi'n cytuno â'r syniadau yma ar gyfer staffio.**

# Rhoi meddyginiaethau



Rydyn ni angen rheolau cliriach ar gyfer darparwyr gofal plant cofrestredig sy'n rhoi paracetamol hylif.



Fe wnaethon ni anfon llythyr gyda chanllawiau newydd i helpu darparwyr gofal plant. Rydyn ni nawr eisiau cynnwys y canllawiau yma o fewn y safonau.



Mae angen i ni hefyd wneud y rheolau'n gliriach am feddyginiaethau ar bresgripsiwn a heb bresgripsiwn.




Felly, mae angen i ni ddiweddaru'r safon am feddyginiaeth a darparu mwy o arweiniad ar roi paracetamol hylif.

## Safon newydd



**Newydd:** Rhaid darllen y safon yma ochr yn ochr â safon 10 – **Gofal iechyd a heintiau.**




Rhaid i ddarparwyr fod â pholisi meddyginiaeth clir. Fe ddylai hyn gael ei ddarllen a'i ddeall gan yr holl staff. Fe ddylai'r polisi gynnwys sut i storio a rhoi unrhyw feddyginiaeth, presgripsiwn neu peidio.



**Newydd:** Mae'r polisi meddyginiaeth yn cael ei rannu gyda rhieni. Mae'n esbonio sut i roi meddyginiaeth yn ddiogel a thrin argyfyngau.




Rhaid i rieni roi caniatâd ysgrifenedig cyn rhoi unrhyw feddyginiaeth.



Os ydy meddyginiaeth yn cael ei roi i blentyn, mae angen i staff ddeall y sgîl-effeithiau posibl. Os ydy plentyn yn cymryd ei feddyginiaeth eu hunain, mae hyn yn cael ei gytuno gyda'r rhieni, ac maen nhw’n ymwybodol o sgîl-effeithiau.



Fe fydd staff yn gofyn i'r person sy'n gollwng y plentyn pryd y cymerwyd meddyginiaeth ddiwethaf.



Fe ddylai staff roi meddyginiaethau presgripsiwn dim ond os ydy meddyg neu weithiwr iechyd proffesiynol yn eu rhagnodi.



Os oes angen gwybodaeth arbennig ar staff i roi meddyginiaeth presgripsiwn, fe fyddan nhw’n cael hyfforddiant gan weithiwr iechyd proffesiynol cymwysedig.



Rhaid i feddyginiaethau beidio â bod wedi dyddio.



Rhaid i bob meddyginiaeth aros yn eu cynhwysydd gwreiddiol. Rhaid i feddyginiaethau presgripsiwn fod ag enw'r plentyn ar y label.



Mae'r holl feddyginiaethau yn cael eu cadw dan glo ac allan o gyrraedd plant. Dilyn y cyfarwyddiadau ar y feddyginiaeth.



Fe fydd darparwyr yn cofnodi pan fyddan nhw’n rhoi meddyginiaethau i blant. Fe fydd rhieni yn llofnodi'r llyfr cofnodion bob tro.




**Rydyn ni eisiau gwybod ydy'r safonau'n glir am feddyginiaeth presgripsiwn a heb bresgripsiwn.**




Mae darparwyr yn gallu cadw a rhoi paracetamol hylif os bydd plentyn yn mynd yn sâl. Rhaid iddyn nhw ddilyn y safonau a'r canllawiau ychwanegol.



Mae'r canllawiau ychwanegol yn dweud:

- Ddylai darparwyr ddim cymryd plant sydd eisoes yn sâl.
- Os bydd plentyn yn mynd yn sâl iawn tra mewn gofal dydd, fe ddylai darparwyr ofyn i rieni neu ofalwyr ddod i gasglu eu plentyn.
- Os nad ydy rhieni yn gallu casglu eu plentyn ar unwaith, rhaid i ddarparwyr gael caniatâd llafar ganddyn nhw i roi paracetamol hylif.
- Os nad ydyn nhw'n gallu cysylltu â rhieni i gael caniatâd llafar, rhaid i ddarparwyr gysylltu â GIG 111 am gyngor gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol.
- Yn y ddau achos, rhaid i'r darparwr ofyn i rieni neu ofalwyr gasglu eu plentyn cyn gynted â phosibl.



**Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am yr arweiniad ychwanegol rydyn ni wedi'i ddarparu ac os ydy yn eich helpu pan fydd angen i chi roi parasetamol hylif i blant.**

# Niferoedd y staff cymwys a heb gymhwyso



Rydyn ni angen rheolau cliriach am faint o staff cymwys a heb gymwysterau mae angen i ddarparwyr eu cael.



Dydy rhai darparwyr ddim yn siŵr os ydy’r rheolau'n berthnasol i bob ystafell, neu ar draws yr holl ystafelloedd sydd yn cael eu defnyddio.



Dydy darparwyr ddim yn siŵr chwaith os ydy staff neu wirfoddolwyr ychwanegol heb gymwysterau yn effeithio ar nifer y staff cymwys y dylen nhw eu cael.

## Safon newydd



Fe ddylid cyfrif staff ar gyfer y lleoliad cyfan, nid ar gyfer pob ystafell.



Rhaid gosod staff yn ofalus ym mhob ystafell i gadw plant yn ddiogel ac yn iach.



Mae hyn yn cynnwys gofalu am blant ag anghenion ychwanegol a phlant anabl.



Efallai y bydd angen help ychwanegol ar rai plant.



Efallai y bydd angen i ddarparwyr gofal plant ychwanegu mwy o staff i roi'r cymorth yma.



Rhaid bod digon o staff bob amser ar gyfer nifer y plant.



Dydy staff ychwanegol sy'n cefnogi plant penodol yn unig ddim yn cyfrif fel staff arferol. Dydyn nhw ddim yn effeithio ar nifer y staff cymwys sydd eu hangen ar ddarparwr.



**Rydyn ni eisiau gwybod a ydych chi'n cytuno â'n syniadau ar gyfer y safon yma.**

# Cynorthwywyr gwarchodwyr plant




Yn 2023 fe wnaethon ni ddweud fod yn rhaid i gynorthwywyr gwarchod plant ennill eu cymhwyster erbyn mis Tachwedd 2024.



Mae'n anodd dod o hyd i gynorthwywyr cymwys newydd pan fydd cynorthwyydd yn gadael.




Ac mae'n anodd cynnig mwy o leoedd i blant.



Fe fyddai rhoi mwy o hyblygrwydd yn gallu helpu gwarchodwyr plant i gadw eu gwasanaeth ar agor.



Fe fyddai cynorthwywyr newydd yn gallu dechrau gweithio heb gymhwyster os ydyn nhw'n gweithio tuag ato.




Rhaid iddyn nhw orffen y cymhwyster o fewn amser penodol.



Rhaid iddyn nhw bob amser gael eu goruchwylio nes eu bod yn gymwys.



**Rydyn ni eisiau gwybod a ydych chi'n cytuno â hyn.**




Mae gwarchodwyr plant eisiau rheolau clir am pryd y gellir gadael cynorthwywyr yn gyfrifol ar eu pennau eu hunain.



Ar hyn o bryd, does dim terfyn amser. Mae hyn yn gallu achosi dryswch.

## Safon newydd




Rhaid i gynorthwywyr gwarchodwyr plant gwblhau cwrs sydd yn cael ei gydnabod gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Rhaid iddyn nhw gael y cymhwyster yma o fewn 6 mis o ddechrau'r swydd.



Hyd nes eu bod yn gymwys, dydyn nhw ddim yn gallu cael eu gadael ar eu pennau eu hunain gyda phlant.



Mae cynorthwyydd cymwys yn gallu cael ei adael ar ei ben ei hun yn gyfrifol am blant am hyd at 2 awr y dydd.




Rhaid iddyn nhw ddilyn yr holl reolau yn y safonau a'r canllawiau.



**Rydyn ni eisiau gwybod a ydych chi'n cytuno â hyn.**

# Cael digon o staff ar gyfer gwarchod plant



Mae angen rheolau mwy hyblyg ar gyfer gwarchod plant.



Fe fyddai hyn yn helpu ar adegau prysur:

- Cyn ac ar ôl ysgol
- Yn ystod gwyliau'r ysgol



Mae llai o warchodwyr plant nawr.



Mae rhieni angen lleoedd i'w plant. Mae'r rheolau presennol yn gwneud hyn yn anodd.



Fe fyddai'r newid yn gallu:

- Cadw brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd.
- Helpu gwarchodwyr plant i gadw eu gwasanaeth ar agor.

## Safon newydd



**Faint o blant mae gwarchodwr plant yn gallu gofalu amdanyn nhw:**

- Hyd at 10 o blant o dan 12 oed.
- Allan o'r 10 hynny, dydy mwy na 6 ddim  yn gallu bod o dan 8 oed.
- O'r 6 hynny, dydy mwy na 4 ddim yn gallu bod o dan 5 oed.
- O'r 4 hynny, dydy mwy na 3 ddim yn gallu bod o dan 2 oed.
- Allan o'r 3 hynny, fel arfer dydy mwy na 2 ddim yn gallu bod o dan 18 mis oed.



Mae’r rheolau yn gallu bod yn wahanol os oes gan blentyn efaill neu dripled gyda'r un gwarchodwr plant.



**Rydyn ni eisiau gwybod a ydych chi'n cytuno â hyn.**




**Plant fydd yn dechrau dosbarth derbyn ym mis Medi:**

- Maen nhw'n gallu cael eu cyfrif fel dros 5 oed yn yr haf cyn iddyn nhw ddechrau'r ysgol.



**Rydyn ni eisiau gwybod a ydych chi'n cytuno â hyn.**



**Plant 3 i 5 oed sydd yn yr ysgol neu ofal arall am 5 awr neu fwy y dydd:**

- Maen nhw'n gallu cael eu cyfrif fel rhai dros 5 oed.



**Rydyn ni eisiau gwybod a ydych chi'n cytuno â hyn.**

# Newidiadau eraill



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod y safonau'n gyfredol ac yn gweithio'n dda.

Fel rhan o'r adolygiad yma, rydyn ni hefyd yn bwriadu:



- Gwneud newidiadau bach i ddiffiniadau gofal dydd.




- Diweddaru canllawiau diogelu.




Rydyn ni hefyd yn meddwl am ychwanegu dolenni i:

Hawliau plant – gwneud yn siŵr bod plant yn cael eu trin yn deg

NYTH/NEST – cefnogi teimladau a lles plant


Cyngor Ymddiriedolaeth Lullaby – sut i helpu babanod i gysgu'n ddiogel

Ymarfer sy'n seiliedig ar drawma – deall a chefnogi plant sydd wedi cael profiadau anodd

Offer gwrth-hiliaeth – helpu lleoliadau i fod yn deg i bawb

Addewid babi – cefnogi babanod i gael y dechrau gorau

Canllawiau diogelwch RoSPA – cadw plant yn ddiogel rhag damweiniau




Mae'r cynlluniau yma yn gallu newid ar ôl i ni gael eich barn. Neu os ydy polisïau newydd yn cael eu datblygu.